**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : MA-L JM/0418/19

Mick Antoniw AC
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

SeneddCLA@assembly.wales

26 Mehefin 2019

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019, yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi hefyd nad wyf, yn yr achos hwn yn bwriadu gosod cynnig i gynnal dadl arno ynglŷn â'r OS. Gwneuthum y penderfyniad hwnnw ar y sail bod yr OS wedi'i gyfyngu i wneud cywiriadau i'r diffygion yn y gyfraith a fydd yn codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae darpariaethau'r OS yn rhai technegol, ac nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod osod cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried cymaint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, ni fyddaf i fy hun yn mynd ati i ysgogi dadl o'r fath.

Julie

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.